

# Cyngor Cymuned Llanycil.

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth, Gorffennaf 10fed 2012 yn Neuadd Maesywaen. Yn bresennol oedd Arwel Davies (Cadeirydd), Rhys Richards, Gwynfryn Williams, Jean Roberts, Cyng. Elwyn Edwards a'r clerch.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Geraint Jones, Geraint Davies, Gwynedd Jones, Gwilym Davies ac Euros Puw.

Darllenwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf, a chafwyd hwy yn gywir.

## Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

### Adran ail-gylchu Cyngor Gwynedd.

Roedd y clerch wedi cysylltu â'r adran ail-gylchu ac roedd y swyddog wedi cytuno i ail drefnu ei ymweliad a mynychu'r cyfarfod ym mis Hydref.

### Pont Bryn Ifan, Arenig a llwybr march ger Neuadd Maesywaen.

Roedd un o swyddogion Cyngor Gwynedd wedi cysylltu ynglŷn â'r cwynion a chafwyd cadarnhad bod y materion am gael sylw cyn gynted â phosib.

## Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

### a) Partneriaeth Penllyn

- i) Derbyniwyd diweddariad ar y datblygiadau yn y Bartneriaeth.
- ii) Cofnodion y cyfarfod diwethaf 19/4/12 a chopi o agenda'r Cyfarfod Blynnyddol, 9/7/12.

### b) Amrywiol

- i) Prifysgol Fetropolitan Abertawe - Llythyr yn gofyn i'r Cyngor gwblhau holiadur ynglŷn â 'Llywodraethwyr Cymuned Ychwanegol'. Cytunwyd i beidio eu cwblhau.
- ii) Parc Cenedlaethol Eryri - Llythyr gyda rhestr o gyfarfodydd yr Awdurdod.
- iii) Ombwdsmon – Copi o'r 'Adroddiad Blynnyddol 2011/12'.
- iv) Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru - Copi o'r adroddiad ynglŷn â'r 'Arolwg o drefniadau etholiadol ar gyfer Sir Gwynedd'. Roedd y Comisiwn yn cynnig gostwng y nifer o Gynghorwyr Sir o 3 i 2 yn ardal Bala, Llandderfel a Llanuwchllyn. O dan y cynnig yma byddai Llanycil yn ymuno a Chyngor Tref Y Bala gydag un Cynghorydd Sir. Cytunwyd i wrthwynebu'r cynnig yma a chefnogi cynllun y cynghorau lleol i gael un ward o'r enw 'Penllyn' gyda 3 Cynghorydd Sir.
- v) Llywodraeth Cymru - Llythyr yn gofyn i'r cynghorwyr gwblhau holiadur ar gyfer eu 'Arolwg o Ymgeiswyr a Chynghorwyr Llywodraeth Leol yng Nghymru'. Cytunwyd i'w cwblhau ar ddiwedd y cyfarfod.
- iv) Bwrdd Iechyd - Llythyr yn egluro eu bwriad i adolygu'r ffordd mae gwasanaethau iechyd meddwl oedolion yn cael eu darparu yn ne orllewin Gwynedd. Cytunwyd i anfon yn nol i ddweud bod hi'n bwysig cadw o'r fath yn yr ardal. Os bydd rhaid cau uned Dryll-y-Car yn Mermo roedd angen i'r gwasanaeth gael ei ail leoli yn lleol.
- iiiv) Ysgol Y Parc - Llythyr yn hysbysu'r Cyngor bod cyfnod Euros Puw fel cynrychiolydd ar Lywodraethwyr yr ysgol yn dod i ben ym mis Awst. Cytunwyd i ofyn i Euros barhau yn ei swydd a hysbysu'r Ysgol o'r penderfyniad.
- iiiv) National Grid - Llythyr yn egluro eu bod yn buddsoddi £70 miliwn dros y ddwy flynedd nesaf mewn rhaglen i ailwampio'r llinellau trydan rhwng Trawsfynydd a Treuddyn.

### **Ceisiadau Cynllunio.**

Derbyniwyd cadarnhad bod y ceisiadau canlynol wedi cael eu caniatáu:-

NP5/72/218A - Maes Carafanau a Champio Ty'n Gornel, Frongoch.

NP5/72/183A – Adeiladu adeilad amaethyddol. Cefn Bodig, Parc.

### **Unrhyw Fater Arall.**

#### **Ceunant ger Rhos Fedw, Parc**

Roedd y cynghorwyr wedi derbyn cwynion bod dŵr yn hel ar riu pentref Parc ac roedd ffens wedi malu a thwll mawr i lawr i'r ceunant ger Rhos Fedw a allai fod yn berig i'r cyhoedd. Gofynnwyd i'r clerc basio'r cwynion ymlaen i Gyngor Gwynedd.

#### **Oriau agor a gwasanaeth Cangen Nat West, Y Bala.**

Trafodwyd cwynion y trigolion lleol am wasanaeth y Nat West yn Y Bala. Gan fod y gangen dim ond yn agored ar ddydd Llun a dydd Gwener rhwng 10yb a 2yp roedd cwsmeriaid yn gorfod aros am hir i ddefnyddio'r banc. Roedd y sefyllfa yn gallu gwaethygu tuag amser cau gan mae dim ond un gweithiwr oedd tu ôl i'r cownter yn aml iawn. Roedd y cwsmeriaid hefyd yn siomedig iawn bod cyn lleied o'r staff yn siarad Cymraeg. Gofynnwyd i'r clerc ysgrifennu at y banc a hefyd trafod y mater gyda Chyngor Thref Y Bala a Phartneriaeth Penllyn.